# Ydi hyn yn normal? gan Myrddin ap Dafydd




Mae'r blew dan ei chesail hi
Yn dewach na 'mlew cesail i!
Ydi hyn yn normal?

Mae o yn fwy ysgwyddog
Hithau yn fwy cluniog …
Ydi hyn yn normal?

Mae hi angen ei bra cyntaf,
Rwyf innau braidd yn araf …
Ydi hyn yn normal?

Fo â'i draed yn anferth,
Minnau â thraed bach prydferth …
Ydi hyn yn normal?

Mae'i mislif wedi dechrau,
Poenau bol a chrampiau …
Ydi hyn yn normal?

Ei wyneb yn llawn plorod
Yn mapio ei lencyndod …
Ydi hyn yn normal?

Ei bidyn – weithiau i lawr,
Ond i fyny efo'r wawr!
Ydi hyn yn normal?

Ei gwallt hi sydd mor seimllyd,
A'i thymer yn daranllyd …
Ydi hyn yn normal?

Pwysau, taldra, siapiau, cryfder –
Maen nhw'n newid yn eu hamser;
Un corff sydd gennym, gwryw neu fenyw,

Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd